YR ATODLEN

Amodau

RHAN 2

Amodau cyn y defnydd cyntaf at ddibenion rheoli ar y ffin

Rheoli traffig

12.—(1) Rhaid i'r datblygwr gyflwyno strategaeth arwyddion i'r awdurdod cynllunio lleol ar gyfer cymeradwyaeth berthnasol, a rhaid cael y gymeradwyaeth hon cyn i unrhyw ddefnydd a ganiateir gan erthygl 3(1)(a)(i) gychwyn.

(2) Rhaid i'r strategaeth arwyddion amlinellu sut y bydd yr arwyddion yn—

(a) cyfeirio cerbydau i ddynesu at y tir ac ymadael â'r tir gan ddefnyddio ffordd feingefn Parc Cybi o'r gyffordd sy'n cysylltu â chefnffordd yr A55, a

(b) annog cerbydau rhag defnyddio ffordd Lôn Trefignath o'i chyffordd â'r tir hyd at ei chyffordd â Lon Towyn Capel.

(3) Rhaid i'r holl arwyddion a gymeradwyir yn y gymeradwyaeth berthnasol gael eu codi.